Crynodeb gweithredol

Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Rhagfarn ac ymddygiad anghyfreithlon: archwilio ysgogiadau ar gyfer newid' (Abrams et al., 2016). Roedd y cyhoeddiad hwn yn cyflwyno'r dystiolaeth gyfredol ar sut mae rhagfarn yn ymwneud â gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a thrais seiliedig ar hunaniaeth.

Nododd yr adroddiad yr angen am werthuso gwell o pa ymyriadau gwrth-ragfarn sy'n effeithiol a pham, yn arbennig ar gyfer sefydliadau sy'n profi heriau a rhwystrau i werthuso'r gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud. Mewn ymateb i hyn, gofynnodd y Comisiwn i'r Glymblaid ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol a Hawliau (CRER) ddatblygu cyfarwyddyd a hyfforddiant ar sut i werthuso ymyriadau ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio i fynd i'r afael â rhagfarn, gwahaniaethu a thrais ac aflonyddwch seiliedig ar hunaniaeth.

Nod y cyfarwyddyd hwn yw adeiladu galluogrwydd o amgylch sut y gall sefydliadau werthuso eu hymyriadau mewn ffordd sy'n gymesur a realistig. Dylai gwerthusiad o well ansawdd ildio tystiolaeth o ansawdd gwell ar arferion effeithiol, y gall y Comisiwn ac eraill ddibynnu arni i lywio eu gwaith.

Cyflwynir y cyfarwyddyd hwn fel set o wyth egwyddor. Mae'r egwyddorion hyn yn cynorthwyo defnyddwyr i gymryd agwedd sy'n cyfuno prosesau dylunio ymyrraeth, dylunio gwerthusiad a gweithredu gwerthusiad.

Dylai gweithredu'r egwyddorion hyn alluogi defnyddwyr i gyflawni gwerthusiad cyffredinol isafswm neu 'ddigon da' o ymyriadau gwrth-ragfarn, tra'n dal i sicrhau bod y gwerthusiad yn ddigon cadarn a thryloyw i ganiatáu hyder yn y canfyddiadau a'u defnydd wrth ddylunio polisi.

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd: Tachwedd 2017

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission